



Eich cyf/Your ref P-05-1010
Ein cyf/Our ref LG/02027/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

24 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Awst ynghylch Deiseb P-05-1010 “Ymchwiliad annibynnol i lifogydd 2020 yn Rhondda Cynon Taf” fel y gallwn ddysgu gwersi”.

Rwy'n deall ac yn rhannu eich dymuniad i weld y risg o lifogydd yn y dyfodol yn gostwng mor gyflym â phosibl. Nid wyf yn cytuno fodd bynnag bod angen ymchwiliad annibynnol ar hyn o bryd. Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf gwblhau ei adolygiad statudol o'r llifogydd yn gynharach eleni cyn imi ystyried a oes angen ymchwiliad neu adolygiad arall. Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar draws ardal Rhondda Cynon Taf, gan Cyfoeth Naturiol Cymru a RCT i asesu achos y llifogydd sydd wedi digwydd eleni, yn ystod y stormydd fis Chwefror na welwyd mo'u tebyg ac yn fwy diweddar.

Cyfrifoldeb y prif Awdurdod Rheoli Risg Llifogydd Lleol perthnasol, wedi'i ddynodi o dan **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**, yw creu Adroddiad Archwilio 'Adran 19' yn dilyn unrhyw achosion o lifogydd. Mae'r adroddiadau hyn yn dadansoddi ac yn archwilio'r rhesymau pam y digwyddodd y llifogydd, sut y bu i'r Awdurdod Rheoli Risg perthnasol ymateb, a gall wneud argymhellion ar sut y gellir lleihau risg llifogydd yn y dyfodol a helpu i lywio cynigion y cynllun amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd.

Mae RCT yn gweithio ar 19 o adroddiadau ar hyn o bryd i asesu achos y llifogydd o Storm Dennis a digwyddiadau diweddar. Mae CNC wedi cadarnhau eu bod yn gweithio gyda RCT i gefnogi'r broses hon. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, bydd yn rhaid cyhoeddi'r adroddiadau gan bob Awdurdod rheoli Risg fel y gellir craffu arnynt yn briodol gan y cyhoedd, aelodau etholedig a phawb arall sydd â diddordeb.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ei wneud yn amlwg i Awdurdodau Rheoli Risg Cymru bod angen blaenoriaethu'r adolygiadau hyn i helpu i ddatblygu cynigion y cynllun i fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd. Yn fy llythyr cylch gwaith diweddaraf at CNC amlinellwyd fel y brif flaenoriaeth yr angen i ystyried gwelliannau i asedau yn y cymunedau hynny ddiweddefodd y llifogydd ac i gyflymu y broses o gyflawni ar gynlluniau llifogydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs